# Canwch â’r Ysbryd… ac â’r Deall

gan **John Roberts**

Chwilio yn y cwpwrdd llyfrau yr oeddwn i a dod ar draws hwn. A chan nad oeddwn wedi ei weld ers rhai blynyddoedd, dyma ddechrau pori ynddo fo a’i gael yn ddigon difyr. Mae manteision, weithiau, o gadw pethau mewn mannau anarferol!

Un gair sydd ar y meingefn – TONAU. Wedi ei agor, gwelais sgrifen plentyn, mewn pensel, ar un o’r tudalennau rhwymo, ‘John Roberts iw gwir berchenog y llyfr hwn.’ Dyna ddatgan hawl.

Ar y dudalen deitl, yn ei law ofalus, daclus ei hun, mae’r perchennog hefyd wedi torri ei enw mewn inc du: ‘John Roberts, Tanrallt, Llangian... Bottwnog 1862.’ Ai ym Motwnnog y cafodd o’r llyfr, tybed? Mae hynny’n ddigon posibl, gan y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Undeb Canu Llŷn yng Nghapel Rhydbach ym Mehefin 1861, a chyfarfod yn rheolaidd wedyn, yn ddiamau.

Mae dau beth arall ar yr un dudalen. Yn ddiddorol iawn, mewn pensel, mae rhif: ‘No.22’. Beth yw arwyddocad hynny meddyliais? Dim ond pedwar symbol, ond eto gellir gweld bod y sawl a’i sgrifennodd yn fwy cyfarwydd â thrin phensel na’r dywededig John Roberts. Yna, yn is i lawr, gwelir y geiriau ‘Nhad pia fe siwr iawn i ganu bas hefo fe.’ (‘Fe’ ysgrythurol?) A dyna dystiolaeth, os oes angen, bod canu pedwar llais yn gyffredin yn y cyfnod hwnnw. Ysywaeth, mae hynny’n mynd yn brinnach, brinnach erbyn hyn, gan dlodi ein canu cynulleidfaol.


Rwyf fi’n digwydd bod yn ddisgynydd i’r John Roberts hwn, a thaniodd fy niddordeb wrth fodio’r gyfrol. Pa gyfrol? Pedwerydd argraffiad *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* Ieuan Gwyllt, a gyhoeddwyd ym ‘Merthyr Tydfil’ gan John Roberts (arall) yn 1860.

Nid fy niben yma yw traethu am werth ac arwyddocad y cyhoeddiad pwysig hwn; mae eraill mwy cymwys na fi wedi gwneud hynny eisoes. Yr hyn sydd o ddiddordeb i mi yw’r cyd-ddigwyddiad o ddau ŵr o’r un enw, a hynny wedi codi rhyw fath o ‘awydd holi’ ynof.

Heddiw, fe gofir am Ieuan Gwyllt (Y Parchedig John Roberts, 1822-77) yn bennaf oherwydd ei waith arloesol ym myd canu cynulleidfaol Cymru. Fe’i ganwyd yn Nhanrhiwfelen, yn ardal Penrhiw ger Aberystwyth. Yn ŵr ifanc, bu’n gweithio mewn swyddfeydd yn ogystal â bod yn ysgolfeistr, a thua’r adeg yma y cyhoeddodd lythyr (neu erthygl?) wedi ei ddyddio 1849, y dyfynnir ohono yn *Y Geninen* 1887 dan y pennawd ‘Saisaddoliaeth yn Nghymru”[1] Hawdd credu y buasai unrhyw aelod o Cefn neu o Cymuned yn ddigon parod i roi ei enw dan y llythyr, oherwydd dweud y mae Ieuan Gwyllt bod y Cymry ‘…wedi eu swyno gan ryw bethau a ymddangosant yn brydferth a dymunol yn iaith, arferion neu synnwyr ei gymydog o Sais.’ Mae’r Cymry, meddai, yn rhy debyg i Samson efo Delila, ‘…mewn traserch at yr estrones hon’, a diweddu gan leisio ei ddymuniad ‘Brysied y dydd y byddo’r meddwl Cymreig unwaith eto wedi ymysgwyd a sefydlu ei annibyniaeth… yn gystal mewn Cerddoriaeth a phob *-aeth* arall.’

A oes allwedd yn y geiriau yna i’n helpu i ddeall peth o’i weithgarwch yn ddiweddarach yn ystod ei oes?

* * *



*Ieuan Gwyllt – John Roberts.*

Fel y dengys teitl y llyfr a gefais yn y cwpwrdd, llyfr o donau ydi o, a hynny heb eiriau, ar wahan i eithriadau y caf sôn amdanynt yn nes ymlaen. Hen Nodiant yw’r cyfrwng, gydag erwydd ar gyfer pob un o’r pedwar llais; y tri llais uchaf yn cael eu nodi gan y cleff trebl, a’r llais isaf gan gleff y bas. Roedd John Roberts, Tanrallt, ac yntau’n ‘canu bas hefo fe’, yn darllen Hen Nodiant, felly. Ond beth am y Sol-ffa? Rydym yn arfer meddwl bob amser mai hwnnw oedd nodiant y werin.

Er nad oes angen manylu yma ar yrfa Ieuan Gwyllt, cystal sylwi ar rai cerrig milltir o bwys ar y daith, cyn iddo gyhoeddi’r Llyfr.

Symudodd i Lerpwl yn 1852 fel Is-olygydd *Yr Amserau*, a Gwilym Hiraethog wrth y llyw. Bu’n hynod o weithgar yno mewn llawer cylch y tu allan i’w swydd gyda’r papur ac, yn arbennig felly, yn ei gapel yn Rose Place, lle daeth yn gyfeillgar ag Eleazar Roberts. Roedd yn aelod o’r Philharmonic – y Gymdeithas, nid y Gerddorfa! Agorwyd byd newydd iddo yno, yn ddiamau, pan gafodd gyfle i wrando ar gerddoriaeth cyfansoddwyr amlycaf y dydd, yn ogystal â’r clasuron. Tybed ai yno y daeth i ymhyfrydu yng ngherddoriaeth yr Almaen?

Ac yn Lerpwl y dechreuodd Ieuan Gwyllt ar y gwaith mawr o gasglu defnydd ar gyfer ei *Lyfr Tonau*, gan gyhoeddi ffrwyth ei lafur yn 1859, a chyhoeddi’r *Ychwanegiad* yn 1870.


Ymadawodd Ieuan Gwyllt â Lerpwl yn 1858 pan benodwyd ef yn Olygydd *Y Gwladgarwr* yn Aberdar. Cyfle, efallai, iddo sôn rhagor am Samson a Delila! Er holl alwadau ei swydd newydd, parhaodd ei ddiddordebau cerddorol ac ysgrifennodd lawer ar y pwnc a dod yn ddarlithydd poblogaidd. Yn ôl y cerddor o Bow Street, J. T. Rees, ‘Daeth ef ar ei hynt i Aberdar; a bu yno am dymhor… Elai cyfeillion o Aberdar gyda ef o gwmpas i ganu y “tonau newydd” i’r cynulliadau y byddai y Gwyllt yn areithio iddynt ar ganiadau cysegredig.” Dyna’r gyfrinach, debyg, o sut y gwerthwyd 17,000 copi o’i *Lyfr Tonau* o fewn tair blynedd i’w gyhoeddi gyntaf. A chopi Tanrallt yn un ohonynt.

Yn 1859, blwyddyn y Diwygiad, derbyniodd Ieuan Gwyllt alwad i fugeilio eglwys Pant-tywyll, Merthyr Tudful, ac ordeiniwyd ef yn 1861.

Dechreuodd astudio cyfundrefn y Sol-ffa tua’r adeg yma, a dilyn ôl troed ei gyfaill o Lerpwl, Eleazar Roberts, y daeth ei enw yn adnabyddus ledled Cymru fel un o arloeswyr y gyfundrefn. Roedd honno eisoes wedi cyrraedd y De gan ennill tir yno, a Ieuan yn manteisio ar hynny i gyhoeddi fersiwn Sol-ffa o’i lyfr. Beth bynnag am ‘ganu bas’ yn Llangian, a hynny o lyfr Hen Nodiant, does dim dadl nad ar y Sol-ffa y meithrinwyd y mwyafrif o gantorion Cymru o’r cyfnod hwnnw ymlaen am ganrif a rhagor o amser.

Wedi bod ym Merthyr am dair blynedd, derbyniodd Ieuan Gwyllt alwad i fugeilio Eglwys Capel Coch, Llanberis, a bu yno hyd ei ymddeoliad yn 1869, oherwydd cyflwr ei iechyd, o bosibl. Aeth i fyw i’r Fron, Llanfaglan ger Caernarfon. Daliodd i fod yn brysur, gan gyhoeddi *Sŵn y Jiwbili* (emynau Sankey a Moody) yn 1874. Bu farw yn 1877 a chladdwyd ef ym mynwent Caeathro, lle y rhoddwyd cerddor arall i orffwys ymhen un mlynedd ar bymtheg, sef William Owen, Prysgol.

Gŵr amrywiol iawn ei ddoniau oedd Ieuan Gwyllt, yn gerddor, newyddiadurwr, darlithydd a gweinidog. Roedd hefyd yn fardd ac emynydd pur fedrus, a rhai o’i



LLYFR TONAU

CYNULLEIDFAOL.

IEUAN GWYLLT.

LLUNDAIN:

*Wyneb-ddalen Llyfr Tonau Cynulleidfaol.*

emynau yn dal yn boblogaidd heddiw, gan gynnwys ei gyfieithiad ‘Mi glywaf dyner lais’. Geiriau o’i waith ef a osodwyd yn unawd i’w wraig, Leila Megane, gan y cyfansoddwr Osborne Roberts, dan y teitl ‘Y Nefoedd’. Dywedir i Ieuan Gwyllt gyfansoddi’r penillion hyn, ‘Ar ôl gofidiau dyrys daith’, pan oedd ei frawd ieuengaf, Isaac, ar ei wely angau.[2]

* * *

Mae’n bryd rhoi sylw i’r *Llyfr Tonau*. Ar ddechrau’r llyfr, mae Ieuan Gwyllt yn rhoi ‘Rhaglith’ go faith, y caf ei chrybwyll eto. Yn dilyn, ceir ‘Mynegai Mesurau’ manwl, yn nodi’r amrywiol fesurau sydd yn y llyfr, gan roddi pennill yn esiampl o bob mesur. Er enghraifft, i egluro’r Mesur Hir (M.5) rhoddodd y geiriau ‘Newyddion braf a ddaeth i’n bro’; felly gyda phob mesur arall. Oes yma awgrym nad oedd y mesurau yn gyfarwydd i bawb? Rhoddir manylion ychwanegol hefyd: Rhif y Dôn; Teitl;